

Rheoli Cyrchfannau Cymru

1	2	3	4	5	6	7	8	9
Trefnu digwyddiadau a gwyliau cynaliadwy								



Croeso
Cymru

Digwyddiadau chwaraeon awyr agored

www.dmwales.com

Mae tirwedd a morwedd Cymru'n gefndir i gannoedd o ddigwyddiadau awyr agored, gan gynnwys rasys mynyddoedd a bryniau, heriau seiclo mynydd a ffordd, a digwyddiadau caiacio. Pan gânt eu cynllunio'n dda, mae'r digwyddiadau hyn yn helpu i ddangos Cymru ar ei gorau a gallant helpu i ddenu ymwelwyr y tu allan i'r tymor gwyliau a helpu busnesau lleol. Rhaid gofalu, fodd bynnag, nad yw digwyddiadau o'r fath yn rhoi gormod o faich ar y seilwaith gweithgareddau hamdden lleol, a sicrhau eu bod yn dangos lefel uchel o stiwardiaeth amgylcheddol. Wrth drefnu digwyddiadau o'r fath, ystyriwch y canlynol:

- **Amseru** – ceisiwch sicrhau bod digwyddiadau tebyg yn eich ardal yn ategu'i gilydd, efallai drwy farchnata ar y cyd. Byddwch yn ymwybodol o risgiau posibl trefnu digwyddiadau yn ystod amseroedd brig (tagfeydd, diffyg lleoedd parcio, effaith cau ffyrdd a grwpiau defnyddwyr eraill); a oes modd cynnal eich digwyddiad y tu allan i'r tymor? Nid yw tywydd gwael bob amser yn rhwystr i chwaraeon awyr agored!
- **Mynediad a chyfathrebu** – cofiwch fod cefn gwlad yn adnodd i bawb ei fwynhau ac yn aml yn lleoliad busnes i ffermwyr. Mae cyfathrebu cyson â'r awdurdodau perthnasol, tirfeddianwyr a grwpiau eraill o ddefnyddwyr yn hanfodol i lwyddiant digwyddiadau chwaraeon awyr agored. Mae'n hanfodol ichi gysylltu â'r holl awdurdodau perthnasol cyn unrhyw ddigwyddiad; fel hynny byddwch yn sicrhau'r cytundebau mynediad priodol ac yn sicrhau y cydymffurfir â rheolau iechyd a diogelwch.
- **Y cod cefn gwlad** – mae'r cod cefn gwlad yn berthnasol i bawb sy'n defnyddio cefn gwlad ar gyfer gweithgareddau hamdden – yn unigol neu fel rhan o ddigwyddiad torfol. Gwnewch

yn siŵr fod cyfranogwyr yn cael yr wybodaeth angenrheidiol i sicrhau eu bod yn mwynhau'r awyr agored a bod pobl eraill yn cael ei fwynhau hefyd. Am wybodaeth bellach ewch i <http://www.countrysidecodewales.org.uk/default.aspx?lang=cy-gb>

- **Sesiynau rhagflas** – os bydd eich digwyddiad yn llwyddo i ddenu noddwyr, ceisiwch eu temtio i gynnal sesiynau rhagflas ar gyfer dechreuwyr yn y gamp. Bydd hynny'n ychwanegu at apêl y digwyddiad ac yn ehangu'r ddarpar farchnad.

Yn ogystal â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol, caiff trefnwyr digwyddiadau eu hannog i gysylltu hefyd â grwpiau siatr / defnyddwyr gweithgareddau hamdden awyr agored lleol. Gall y rhain roi manylion am ddigwyddiadau eraill a gynhelir yn lleol a helpu i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael y gorau allan o'r profiad ac y byddant yn awyddus i ddychwelyd.

Parc Cenedlaethol Eryri – Eryri Bywiol
www.snowdonia-active.com

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
<http://www.beacons-mpa.gov.uk/the-authority/working-in-partnership/tourism-new/brecon-beacons-outdoor-charter>

Parc Cenedlaethol Sir Benfro
www.pembrokeshireoutdoors.org.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government